# CADW AC ADDASU TAI YNG NGEFN GWLAD

## Egwyddorion Ymarfer Da





CYNGOR GWYNEDD COUNCIL




Arwynebedd =15,550 hectar
Poblogaeth = 6502 (2001)

## CYFLWYNIAD

**Mae patrwm penodol o anheddiad - sy'n nodweddiadol o arfordir a mynydd-dir gogledd a gorllewin Cymru - o fythynnod bychan iawn wedi'u gwasgaru ar dir gwael. Un o'r ardaloedd pwysicaf hyn yw penrhyn Llŷn.**

**Roedd tirluniau tebyg yn llawer mwy cyffredin ar un adeg ac maen nhw'n cynnwys y mathau lleiaf o anheddau sydd wedi goroesi yn unrhyw le yng Nghymru.**

**Nid yw'r bythynnod bychan hyn yn hen iawn - ychydig sy'n gynharach na diwedd y ddeunawfed ganrif ac mae llawer yn llawer iawn yn fwy diweddar - ond y rhain oedd cartrefi aelodau mwyaf distadl y gymdeithas wledig.**

**Fe'u hadeiladwyd o ddefnyddiau lleol a chan ddefnyddio technegau rhanbarthol traddodiadol. Maen nhw'n dystiolaeth o ddiwylliant a bywyd beunyddiol pobl Llŷn.**

**Fel rhan o archif gyfoethog o hanes cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru maen nhw'n haeddu cael eu cadw a'u trin gyda chydymdeimlad.**

**Fe'u gadewir mewn perygl wrth i bobl symud o aneddiadau ymylol, cant eu hesgeuluso neu eu moderneiddio'n anaddas.**

**Mae'n anodd cadw'r bythynnod hyn fel y dylent gan eu bod yn aml yn anghysbell, yn fychan a bod eu cymeriad pensaernïol yn fregus. Mae'r rhan fwyaf o'r bythynnod yma yn Llŷn yn cael eu gwarchod yn statudol drwy eu rhestru a gall cynllunio a rheoli datblygu sensitif fod o help drwy annog dyluniad a manylion da.**

**Cafodd y llyfryn hwn ei baratoi er mwyn egluro a dangos natur arbennig y bythynnod yma ac i gynnig canllawiau ymarfer da wrth eu hadfer a'u haddasu ar gyfer bywyd yn y ganrif hon.**

## DYLUNIAD HANESYDDOL Y BYTHYNNOD

- Mae'r rhan fwyaf o'r bythynnod sydd wedi goroesi yn Llŷn yn dyddio o ddechrau i ganol y G19 gydag ychydig iawn yn dyddio'n ôl cyn hynny.
- Mae olion rhai bythynnod gyda waliau mwd yn dal i'w gweld yn y tirlun ac mae rhai wedi'u hymgorffori mewn adeiladau cerrig diweddarach.

- Mae gweddillion bythynnod cerrig cynharach wedi'i hadeiladu i rai bythynnod ond mae'n amlwg i'r rhan fwyaf gael eu hadeiladu o'r newydd.

- Roedd bythynnod gwledig, o angenrheidrwydd, yn cael eu hadeiladu o ddefnyddiau a oedd wrth law'n hwylus yn yr ardal, megis cerrig, calch, clai, coed a llechi. Nid yw hyn yn golygu nad oedd defnyddiau adeiladu yn cael eu mewnforio. Erbyn canol y G19 gellid cael defnyddiau o gryn bellter i ffwrdd, yn enwedig ar y rheilffyrdd.

## DYLUNIAD A GOSODIAD

- Mae'r rhan fwyaf o fythynnod yn dangos tebygrwydd cryf yn y ffordd y maen nhw wedi'u gosod. Mae hyn yn awgrymu fod ffordd gyffredin o wneud pethau a bod arferion derbyniol o ddylunio.

- Gellir gweld hyn yn y cynllunio lle mae dimensiynau, cyfraneddau a gosodiad tebyg i'w gweld dro ar ôl tro. Yn aml mae cynllun y bwthyn yn fersiwn lai o'r tai mwy yn yr ardal.

- Yn y rhan fwyaf y mae trefn y waliau'n adlewyrchu trefniant y gofod mewnol.

- Mae'r wal ffrynt isel, petryal gyda drws yn y canol a dwy ffenestr o boptu yn hynod o gymesur a chyfran. Dwy simnai, un ar bob wal dalcen.


- Mae'r cynllun yn betryal gyda simnai fawr ar y wal dalcen chwith fel arfer. Weithiau ceir lle tân arall, llai, ar y wal dalcen dde ond yn aml mae'r simnai yma'n ffug – yno'n unig i gadw cymesuredd!


- Roedd y bythynnod yn fychan ac yn dywyll - a dyma'r prif anawsterau wrth gynllunio newidiadau.


- Y waliau cynnal yw'r rhai allanol, mae'r rhaniadau mewnol i gyd yn rhai o wensgot pren. Efallai mai dim ond dau hanner sydd yno gyda chyntedd yn eu rhannu neu efallai fod y rhaniad i dair neu bedair o ystafelloedd llai.


- Efallai y ceir croglofft, ond nid bob tro. Os oes croglofft yno, gallai fod dros hanner neu'r cyfan o arwynebedd y llawr.

- Gallai'r lloriau fod o bridd wedi'i galedu neu'n gymysgedd o galch a phridd, efallai gyda haen o goncrid diweddarach drosto.




Safle cyplau 'A'
Wenscot
simnai fawr
safle'r groglofft – gallai fod yn un o'r ddau ben, neu'r ddwy


estyniadau diweddarach


Fframiau 'A'
to llechi
drws
llinell bosibl croglofft
simnai fawr

## DEFNYDDIAU

### Cerrig

- Roedd digonedd o gerrig caeau ar gael ond roedd dal yn rhaid eu cario ar y safle, eu naddu a'u sgwario, yn sicr ar gyfer y bythynnod gydag adeiladwaith gwell. Roedd naddu'r cerrig yn gwneud y gwaith adeiladu'n llawer haws ac yn galluogi ffenestri a drysau i gael eu gosod yn sgwâr.

- Mewn bythynnod eraill defnyddid cerrig caeau, cerrig mawr a rwbel gyda cherrig wedi'u naddu o gwmpas yr agoriadau'n unig.

- Mae pob un yn dangos medr y saer maen wrth godi'r adeilad.

- Cai'r cerrig yn y waliau eu dal gyda'i gilydd gyda mortar o glai a chalch neu hyd yn oed o bridd a chalch gyda darnau llai o gerrig yn cael eu gwthio i'r tyllau mwyaf.

### Calch

- Roedd calch yn un o'r defnyddiau adeiladu pwysicaf, dyma oedd sail y mortar ar gyfer y waliau, y plaster ar gyfer y tu mewn, y rendr ar gyfer y tu allan, yr haen o dan y llechi ar y to a'r gwyngalch ar y tu allan i gadw'r gwlybaniaeth i ffwrdd.

### Llechi

- Efallai bod y bythynnod cyntefig, cynharaf iawn wedi'u toi â gwellt neu frwyn ond mae toeau llechi ar y bythynnod diweddaraf.

- Yn dibynnu ar yr ardal ac ar ansawdd y llechi a oedd ar gael, roedd cryn wahaniaeth yn y technegau toi. Mae'r rhain yn amrywio o doeau o lechi bychan di-drefn i doeau gyda llechi mawr, glan wedi'u gosod yn rheolaidd.

- Mewn rhai toeau mae'r llechi ar wely o fortar yn hytrach na bod â haen o galch o dan y to.

- Ceir llechi wedi'u bachu dros yr estyll gyda phegiau coed ar y toeau hŷn.

- Pan ddechreuai'r llechi lithro daeth yn arfer cyffredin trwsio'r to drwy roi growt drosto i gyd i ddal y llechi yn eu lle am rai blynyddoedd yn rhagor. Byddai rhagor o growt yn cael ei roi bob yn hyn a hyn nes yn y diwedd allai strwythur y to ddim dal y pwysau ychwanegol a byddai'n rhaid ail doi.

- Roedd yn rhaid rhoi haen o galch o dan y llechi er mwyn eu dal yn eu lle, rhag iddyn nhw ysgwyd ac i gadw drafftiau o'r bwthyn – a oedd yn cael ei groesawu gan bwy bynnag a fyddai'n cysgu yn y grogloft.

### Coed

- Coed wedi'u llifio a gai eu defnyddio yn y rhan fwyaf o fythynnod Ll n a dim ond ychydig o enghreifftiau sydd ar ôl o ddefnydd o goed wedi'u torri'n fras a brigau fel coed strwythurol.

- Defnyddid coed ar gyfer y lintelau, trawstiau, cyplau, tulathau a distiau.

- Fframiau 'A' oedd cyplau'r to fel arfer, roedd y rhain yn hawdd i'w gwneud ac yn ddigon da ar gyfer yr hyd a'r pwysau oedd i'w ddal. Dim ond dau gwpl oedd yn y rhan fwyaf o fythynnod

- wedi'u gosod tua thraean o'r ffordd o'r waliau talcen.

**Gwyngalch**

- Dyw waliau allanol o gerrig cae neu rwbel ac wedi'u gosod gyda chymysgedd o galch a phridd ddim yn dal dwr yn dda iawn ac felly daeth yn arferol defnyddio gwyngalch i amddiffyn y waliau. Dim ond cymysgedd o galch pwti a d r yw gwyngalch gyda pheth saim neu olew llin ynddo, efallai, er mwyn iddo ddal d r yn well. Roedd yn rhaid gwyngalchu bob blwyddyn, fel rheol dim ond ar du blaen y bwthyn. Byddai'r croniad o galch dros y blynyddoedd yn creu effaith, crwn, tonnog hyfryd a oedd yn nodweddiadol o'r bythynnod. Gallai'r croniad o galch yn hawdd fod cymaint â 25mm o drwch.

## GOFALU AM DREFTADAETH BYTHYNNOD LLYN

- Ceisir yn yr adran hon egluro'r ffordd orau o gadw cymeriad sensitif a gwerth hanesyddol y bythynnod a dal i allu eu haddasu ar gyfer gofynion bywyd modern neu hyd yn oed ar gyfer dibenion eraill.

- Y ffordd orau o sicrhau fod pob adeilad yn goroesi yw dal i'w ddefnyddio. A hefyd, y ffordd gyflymaf o'i ddinistrio yw ei esgeuluso a'i adael i fynd a'i ben iddo.

- O dan y ddeddfwriaeth gynllunio bresennol ni ellir ail ddechrau defnyddio bythynnod sydd wedi'u gadael ac wedi dadfeilio.

- Ardal wledig dlawd fu penrhyn Llyn erioed gyda phoblogaeth denau yn ddibynnol iawn ar chwareli ac amaethyddiaeth. Mae'n ardal o fân bentrefi gwasgaredig gyda thyddynnod a bythynnod o'u hamgylch.

- Mae'r ffaith ei bod yn anghysbell ac yn anodd ei gyrraedd wedi gwneud yr ardal yn ffefryn gydag ymwelwyr a pherchnogion tai haf ac mae hynny wedi rhoi rhagor o bwysau ar amgylchedd a oedd eisoes yn fregus.

## EGWYDDORION YMARFER DA

**Cyffredinol**

- Mae nifer o Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol fawr yn Llyn.

- Mae llawer o'r bythynnod ar y penrhyn yn adeiladau rhestredig ac mae'n debyg y bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer unrhyw newid, y tu fewn neu'r tu allan.

- Mae'n drosedd gwneud unrhyw waith ar adeilad rhestredig heb yn gyntaf gyflwyno cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig.

- Bydd gofyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd a hefyd ganiatâd Rheoliadau Adeiladu mae'n debyg.

- Cyn dechrau ar unrhyw newidiadau cofiwch sicrhau fod y cyflwr gwreiddiol yn cael ei gofnodi'n ofalus.

- Argymhellir y dylid cael cyngor arbenigwr ar gyfer pob prosiect, un ai oddi wrth yr Awdurdod Lleol neu gan berson proffesiynol cymwys sy'n gyfarwydd ag adeiladau rhestredig a chyda'r deddfau cynllunio.

- Byddwch yn onest ac yn sensitif - peidiwch â cheisio cuddio'r adeilad, gadewch i'r bwthyn adrodd ei stori ei hunan.


- Cofiwch – mae bwthyn i fod yn fychan – nid yw'n gallu dygymod yn rhwydd â chael ei helaethu'n ormodol.

**Y tu allan**

- Cadwch gymeriad y tu allan, parchwch yr agwedd a'r cyfeiriad gwreiddiol.


- Cadwch y patrwm a graddfa'r agoriadau gwreiddiol a pheidiwch â chreu rhai newydd.

- Nid yw drysau patio'n gweithio ar fythynnod!



- Cadwch o fewn ôl troed gwreiddiol yr adeilad os yn bosibl, cadwch y llinellau gwreiddiol y to a pheidiwch ag ychwanegu ond yr hyn sydd wirioneddol raid.


- Pan na ellir osgoi adeiladu estyniadau, parchwch raddfa a chyfanrwydd yr adeilad gwreiddiol. Peidiwch â gadael i'r estyniad dra-arglwyddiaethu.



- Fel canllaw, mae estyniadau'n gweithio orau pan nad ydyn nhw'n fwy na thraean o faint yr adeilad gwreiddiol.


- Yn y rhan fwyaf o achosion, estyniad syth fydd y mwyaf addas.

- Gofynnwch am gyngor ynghylch gofynion cynllunio ar gyfer estyniadau mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.



- Ni ddylid ceisio toddi estyniad newydd i'r adeilad gwreiddiol ond ei adael yn amlwg fel yr hyn ydyw.

- Dylai llinell y to fod yn is a'r waliau wedi'u gosod yn ôl o linell y gwreiddiol.



- Cadwch y dystiolaeth o bwrpas gwreiddiol tai allan sy'n cael eu haddasu ar gyfer defnydd domestig.


- Bydd agoriadau yn rhai bychan fel arfer gyda chyfran fwy o wal nag o arwynebedd ffenestr.


- Nid yw estyniadau gyda tho fflat yn gweithio nac yn cael eu caniatáu fel arfer.

- Parchwch y dull adeiladu gwreiddiol drwy ddefnyddio'r un defnyddiau, cydrannau a thechnegau. Defnyddiwch lechi o'r un faint a lliw. Dylai rhediad y to fod fel y gwreiddiol.

**Windows**

- Roedd y ffenestri fel arfer yn fychan ac yn rhai ffrâm, er bod rhai gyda ffenestri adeiniog neu hyd yn oed gyda ffrâm yn llithro'n llorweddol (ffenestri Swydd Efrog). Yn gyffredinol, po hynaf y ffenest y mwyaf o gwareli gwydr a fydd ynddi.








Roedd gan ffenestri ffrâm a'u rhaniadau bwyslais fertigol bob amser o tua un a hanner i un o gymharu â'r llorweddol


- Ffenestri yw llygaid bythynnod, gellir difetha bwthyn sydd wedi'i adfer yn ofalus drwy osod ffenestri anaddas.

- Mae ffenestri adeiniog, ffenestri uPVC, ffenestri coed caled, ffenestri ffrâm ffug yn gogwyddo oll yn anaddas ar gyfer bythynnod.


- Yr unig fath dderbyniol o ffenestr yw ffenestr ffrâm focs ddwbl neu sengl oni bai bod tystiolaeth i'r gwrthwyneb.




Math casement uPVC



uPVC




Coed caled wedi'i staenio




Fframiau ffug

- Mae ffenestri bob amser yn cael eu gosod yn ôl 100mm o leiaf yn yr agoriad. Dydyn nhw byth yn wastad gydag wyneb allanol y wal.


- Roedd wyneb y ffenestr yn cael ei baentio bob amser, gwyn fel arfer, ond BYTH yn cael ei staenio.





- Dylai ffenestri fod â gwydr sengl a heb dyllau awyru.
- Y math addas o ffrâm ar gyfer oedran y bwthyn yw naill ai un o ddwy gwarel neu bedair cwarel.
- Os yw'r ffenestri gwreiddiol yn dal yno dylid eu hatgyweirio neu roi rhai newydd union yr un fath yn eu lle.
- Mae gofyn bod yn ofalus iawn wrth osod ffenestri cromen lle nad oedd rhai o'r blaen rhag difetha cymeriad y bwthyn.



Ni yw ffenstri cromen to fflat yn gweithio ar fwthyn neu grogloft bwthyn




- Dylai cromenni tal maen a chromenni arbwys fod yn fychan ac i raddfa.



**Drysau**

- Drysau plaen syml fyddai gan fythynnod bob amser, efallai gyda phanel o wydr yn y canol. Ni chai'r gwydr ei roi yno os byddai gwydr uwch ben y drws.




- Byddai'r drysau wedi'u gwneud o goed meddal ac un ai gyda phren croes ac ar draws neu gyda ffrâm, darn croes a darn traws ar eu cefn.


- Byddent bob amser wedi'u paentio a byth yn cael eu staenio. Fel arfer y lliw fyddai gwyrdd tywyll, browngoch neu las tywyll. Ni ddefnyddid gwyn.

- Clicied syml fyddai ar y drysau, a chnocwyr syml hefyd os byddai rhai o gwbl.


- Nid yw drysau o ddyluniadau modern megis y math 'Carolina' gyda gwydr uwch eu pen fel rhan o'r drws yn addas nac ychwaith rai gyda llawer o wydr. Na chwaith drysau gyda phaneli o unrhyw fath nac unrhyw beth mewn uPVC!



Drws gyda phaneli



Math 'Carolina'



Gormod o wydr

**Porthau**


- Os ydynt yno, dylid eu cadw.

- Os ychwanegir porth rhaid gofalu nad hwn fydd y nodwedd amlycaf ar y bwthyn. Bydd gofyn cael Caniatâd Adeilad Rhestredig i osod unrhyw beth ar adeilad rhestredig.

- Mae gofyn hefyd cael caniatâd cynllunio os yw'r porth yn uwch na 3 metr, yn fwy na 3 metr sgwâr o ran arwynebedd neu'n nes na 2 metr at briffordd.

- Rhaid i borthau fod yn gymesur â'r adeilad a bod o ddyluniad ac o ddefnyddiau addas.






- Nid yw porthau caeedig gyda thoeau fflat byth yn dderbyniol.

**Ffenestri to**

- Ni ddylid defnyddio ffenestri to mawr, yn enwedig y mathau 'Velux' arferol. Os bydd gofyn eu cael o gwbl, dylai ffenestri to fod yn fychan, yn gymesur a pheidio â bod yn gorwedd yn rhy uchel ar linell y to.

- Mae'r rhan fwyaf o'r ffenestri math 'cadwraethol', er gwaethaf eu henw, yn tueddu i fod yn uwch na'r to ond mae rhai is ar gael.

- Dylai ffenestri to fod ar ganol rhediad y to, peidiwch â'u gosod yn rhy agos at y brig na'r bondo.




**Waliau allanol**

- Ni fwriadwyd erioed i waliau rwbel bythynnod gael eu dinoethi oherwydd natur ddibatrwm y cerrig a oedd, fel arfer, wedi eu hel oddi ar y caeau a'u defnyddio heb eu naddu na'u sgwario mewn unrhyw fodd. Felly, nid yw'n dderbyniol ail bwyntio'r cerrig a'u gadael yn noeth.

- Y got law draddodiadol oedd gwyngalch – cymysgedd o bwti calch a d r – a oedd yn cael ei baentio ar y gwaith cerrig. Gwneid hyn yn flynyddol gan fod y gwyngalch yn tueddu i bylu a chael ei olchi ymaith yn raddol. Dros y blynyddoedd byddai croen tew o wyngalch yn ffurfio ar y gwaith cerrig gan dyneru amlinelliad y cerrig. Ni roddid lliw yn y gwyngalch byth.

**Ategolion to a glaw**

- Er y byddai'r bythynnod cynharaf wedi'u toi â gwellt neu frwyn, buan y daeth llechi y dewis cyntaf o orchudd ar y to. Roedd digon o lechi ar gael yn lleol ac roedd to llechi'n parhau'n hwy ac yn dal dŵr yn well.

- Gall toeau llechi barhau am 100 mlynedd neu fwy ac efallai fod y to gwreiddiol yn dal ar y bwthyn.

- Dylid trwsio toeau llechi gwreiddiol pryd bynnag y mae hynny'n bosibl, nid ail doi, a hynny gyda llechi sy'n cydweddu'n berffaith. Golyga hyn o ran lliw, trwch, math o doriad a'r dull o osod.

- Dylid ail doi gyda llechi sy'n gymesur â'r to, bydd llechi hynod o fawr (mwy na 20 x 10) yn ymddangos yn rhyfedd.

- Roedd yr hen deils brig wedi'u huno yn y pen, nid fel y math newydd sy'n gorgyffwrdd, ac o liw glas tywyll.


- Ni ddylid gosod tyllau awyru yn y to, dylid ystyried defnydd sy'n anadlu yn eu lle. Os na ellir eu hosgoi, mae tyllau awyru yn y brig yn llai gweladwy na rhai yn y llechi.

- Yn wreiddiol fyddai yna ddim landeri ar fythynnod heblaw efallai am ddarn byr uwch ben y drws ffrynt.


- Yn aml iawn cai'r d r yn rhedeg oddi ar y to yng nghefn y bwthyn ei ddal mewn ffos agored.

- Yr unig ddefnydd derbyniol ar gyfer landeri a phibellau landeri yw darnau hanner crwn o haearn bwrw neu ogee os oes cynsail. Gellir eu gosod yn uniongyrchol ar y bondo gyda phren wyneb cul neu ar fachau codi a gostwng wedi'i rhoi rhwng y cerrig.

- Gellir ystyried alwminiwm bwrw yn lle haearn bwrw mewn achosion eithriadol. **Gwaith Allanol**




Braced codi a gostwng




Pren wyneb cul

O hyn -







Efallai y bydd gardd ffrynt fechan o fewn cwrtil y bwthyn wedi'i chau gan wal o gerrig sych a llidiart o haearn gyr neu haearn bwrw ond, yn amlach na pheidio, roedd y bythynnod yn cael eu hadeiladu yn agos iawn at y ffordd.

Efallai y bydd ychydig o dir gyda'r bwthyn, cae neu ddau bychan weithiau, gyda chloddiau'n derfyn. Dylid eu cadw fel ag y maent.

A. planhigion / llwyni addurniadol
B. gwrych anaddas
C. nodweddion addurniadol
D. arwynebedd caled mawr
E. strwythur mawr ar ei ben ei hun




Mae'r hyn sydd o amgylch bwthyn mor bwysig â'r adeilad ei hunan, dylid ei gadw mor agos i'r gwreiddiol â phosibl.

Peidiwch â'i wneud yn ardd drefol a pheidiwch â phlannu planhigion anfrodorol.

## Polisiau Cynlluniau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol

Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 3.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall.  Dylid edrych ar bolisiau Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Chanlllawiau Cynllunio Atodol (copiau ar y wefan yma) yn ogystal a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, cyn cyflwyno cais.

Hefyd, os bwriedir cyflwyno cais rydym yn annog darpar ymgeiswyr i ddefnyddio'r gwasanaeth rhoi cyngor cyn cyflwyno cais sydd yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Cynllunio.  Dylid cydymffurfio gyda gofynion y Nodyn Canllaw – Cynnig Cyngor Cyn Cyflwyno cais (ar y wefan) cyn ceisio trefnu apwyntiad i weld Swyddog Cynllunio.

# Enghraifftiau o gartrefi gwledig traddodiadol yng Ngwynedd





